OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1082 (Cy. 244)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Hydref 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *7 Hydref 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Tachwedd 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 9(1)(a), 140(7) ac (8) a 142(5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**) ac adrannau 87 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Tachwedd 2020.

**Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005**

**2.** Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**3**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 6.

**3.** Yn rheoliad 27 (penderfyniad cyn asesu)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Os na chafwyd yr wybodaeth eto sy'n ofynnol o dan reoliadau 25 a 26 caiff yr asiantaeth fabwysiadu benderfynu bwrw ymlaen fel pe bai wedi gwneud penderfyniad o dan baragraff (1)(a).";

(**1**) 2002 p. 38 ("Deddf 2002"). *Gweler* y diffiniadau o "regulations", "appropriate Minister" a "the Assembly" yn adran 144(1) o Ddeddf 2002. Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2014 dccc 4. *Gweler* adran 197(1) am y diffiniad o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd" a "rheoliadau".

(**3**) O.S. 2005/1313 (Cy. 95) ("Rheoliadau 2005"), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/163 (Cy. 31) ("Rheoliadau 2020"). Rhoddodd Rheoliadau 2020 Ran 4 newydd yn Rheoliadau 2005. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(b) ym mharagraff (2), ar ôl "rhaid i'r asiantaeth" mewnosoder ", pan fo'n rhesymol ymarferol,";

(c) ym mharagraff (4)—

(i) yn y geiriau agoriadol, ar ôl "i fabwysiadu plentyn," mewnosoder "neu pan fo paragraff (1A) yn gymwys,";

(ii) yn is-baragraff (b), ar ôl "rhaid iddo" mewnosoder ", pan fo'n rhesymol ymarferol,".

**4.** Yn rheoliad 28 (asesiad cam 2)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn lle "o fewn chwe mis i'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth y darpar fabwysiadydd" rhodder "yn dilyn hysbysiad";

(ii) ar ôl "reoliad 27(4)" mewnosoder "neu pan fo rheoliad 27(1A) yn gymwys";

(b) hepgorer paragraffau (2) a (3).

**5.** Yn rheoliad 30 (adroddiad darpar fabwysiadydd)—

(a) ym mharagraff (2)(c), yn lle "26(d)" rhodder "26(d) neu (dd)";

(b) ym mharagraff (6)(b), yn lle "26(b) i (d)" rhodder "26(b) i (dd)".

**6.** Yn rheoliad 30B (penderfyniad a hysbysiad gan yr asiantaeth fabwysiadu)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl "asiantaeth fabwysiadu" mewnosoder ", pan fo'n rhesymol ymarferol,";

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i'r asiantaeth fabwysiadu beidio â gwneud penderfyniad o dan baragraff (1) hyd nes ei bod wedi cael yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan reoliadau 25 a 26.";

(c) ym mharagraff (2), hepgorer is-baragraff (a) a'r "neu" sydd yn union ar ei ôl;

(d) ym mharagraff (5)(c)(ii), ar y dechrau mewnosoder "yn ddarostyngedig i baragraff (5A),";

(e) ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

"(5A) Pan fo rheoliad 27(1A) yn gymwys a bo'r asiantaeth fabwysiadu yn ystyried nad yw'r darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn oherwydd gwybodaeth a gafwyd o dan reoliad 25 neu reoliad 26, ni chaiff y darpar fabwysiadydd wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad gan banel adolygu annibynnol o'r dyfarniad o gymhwyster."

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015**

**7.** Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**4**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 8.

**8.** Yn rheoliad 26(1) (cymeradwyo dros dro berthynas, cyfaill neu berson arall sydd â chysylltiad ag C), yn lle "16 wythnos" rhodder "24 wythnos".

**Dod i ben**

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 10, mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn peidio â chael effaith ar 31 Mawrth 2021.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn cyn iddynt beidio â chael effaith.

(**4**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Arbedion: asesiadau addasrwydd**

**10.** Mewn achos pan fo asiantaeth fabwysiadu, ar 31 Mawrth 2021, yn y broses o asesu addasrwydd darpar fabwysiadydd yn unol â Rhan 4 o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, rhaid i'r asesiad hwnnw barhau fel pe bai'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau mewn grym.

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

5 Hydref 2020

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddwy set o Reoliadau er mwyn llacio a diwygio gofynion a osodir odanynt. Mae'r diwygiadau yn cael eu gwneud er mwyn cynorthwyo'r sector gofal cymdeithasol i blant mewn ymateb i achosion a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru ac maent yn peidio â chael effaith ar 31 Mawrth 2021.

Mae **rheoliadau 3** i **6** yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1313 (Cy. 95)), sy'n nodi'r broses ar gyfer asesu addasrwydd pobl i fabwysiadau plentyn ac addasrwydd plant i gael eu mabwysiadu. Maent yn gwneud diwygiadau i'r broses gymeradwyo ar gyfer darpar fabwysiadwyr i alluogi i wybodaeth y mae rhaid ei chasglu ar hyn o bryd yn ystod cam 1 o'r broses gymeradwyo gael ei chasglu yn ystod cam 2 ac yn llacio'r amserlen pan fo rhaid ymgymryd â gweithredoedd penodol. Mae **rheoliad 5** yn cywiro gwallau teipograffyddol.

Mae **rheoliad 8** yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1818 (Cy. 261)) i estyn y cyfnod (o 16 i 24 o wythnosau) pan ganiateir i berson sy'n berthynas i blentyn neu sy'n gysylltiedig fel arall â phlentyn gael cymeradwyaeth dros dro i weithredu fel rhiant maeth awdurdod lleol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Mae **rheoliad 10** yn gwneud darpariaeth arbed i sicrhau bod rhai o'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau i fod yn gymwys o dan amgylchiadau penodol ar ôl i'r diwygiadau ddod i ben ar 31 Mawrth 2021 yn unol â **rheoliad 9**.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.